**Cyfarfod y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig,**
**23 Chwefror 2011, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, 11am – 3.30pm**

| | | |
|---|---|---|
| Yn bresennol: | Trevor Dines (TD) | Plantlife (Yn y Gadair) |
| | Caryn Le Roux (CLR) | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| | Hilary Miller (HM) | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| | Clare Burrows (CB) | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| | Gethin Davies (GD) | Parc Cenedlaethol Eryri |
| | Helen Buckingham (HB) | Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| | Cath Shellswell (CS) | Plantlife |
| Pwyntiau Gweithredu: | Frances Gillett (FG) | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Ymddiheuriadau: | Arfon Williams | RSPB |
| | Rosie Carmichael | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | Alys Edwards | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| | Glenda Thomas | FWAG |

1. **Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Cymerodd Trevor y gadair am y cyfarfod, cymerodd ymddiheuriadau, a chroesawodd Helen i'w chyfarfod cyntaf.

2. **Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Gweler pwyntiau gweithredu 1 – 18 isod.

- Mae Steve Chambers (LlCC) wedi ymgymryd â'r rôl o gyd-drefnu Rhaglen Ymchwil a Datblygu Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Defra. Mae angen o hyd inni ddiffinio proses ar gyfer cyfrannu a/neu fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd. **PG 1, 19**
- Cytunwyd ar restr o adnoddau ar gyfer gwefan PBC. Roedd angen gwaith pellach ar y dulliau arolygu, gweler yr eitem yn ddiweddarach. Cytunodd y grŵp y dylai cyngor rheoli a ddarperir gael ei gadarnhau ganddo, yn hytrach na chyfeirio ymlaen at amryw o ffynonellau gwybodaeth gwahanol. Fel man cychwyn, cytunwyd i ddefnyddio taflenni gwybodaeth arfaethedig Glastir, fel a phan y cânt eu cynhyrchu, unwaith y mae'r grŵp wedi cael cyfle i gynnig sylwadau arnynt/eu diwygio.
  Bydd dolenni cyswllt at wefannau grŵp Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin (HAP) y DU ar gyfer Gwrychoedd a Pherllannau. Mae'n ymddangos nad yw grŵp HAP Tir Âr y DU yn bodoli mwyach **PG 2, 20 - 24**
- Cytunodd Hilary i symud y mater ynglŷn â Gorchmynion Cadw Coed ymlaen gyda'r wybodaeth a gafwyd gan y grŵp. **PG 25**

Roedd y pwyntiau gweithredu eraill wedi'u cwblhau neu ymdriniwyd â nhw yn y cyfarfod.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

- Blaenoriaethau gofodol o ran gweithredu ynghylch cynefinoedd – cynhaliwyd cyfarfod o'r is-grŵp ar 12/01/11 ac roedd nodyn o'r cyfarfod

hwnnw wedi cael ei gylchredeg. Adolygwyd a diweddarwyd y camau gweithredu o'r cyfarfod hwnnw. Mae Trevor wedi cynhyrchu camau gweithredu lefel 3 ar gyfer ardaloedd âr â blaenoriaeth a nodwyd drwy'r broses. Gofynnwyd i'r grŵp am ei sylwadau ar y rhain, i'w gwneud mor ddefnyddiol â phosibl. Pan fyddant wedi'u cwblhau cânt eu rhoi ar y lle adnoddau ar ein tudalen we. **PG 31 - 35**

- Y Gronfa Grant Bioamrywiaeth – mae'r grŵp wedi cymeradwyo'r ddau gais gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol eleni; perllan newydd ym Mhlas yn Rhiw, Penrhyn Llŷn, a chnwd barlys ar ei draed yn Vile, Gŵyr. Fodd bynnag, teimlid y gallai defnydd pellach fod wedi cael ei wneud o'r grant gan sefydliadau eraill pe bai'r meini prawf a'r amodau ymgeisio wedi bod yn wahanol. Gofynnwyd i'r grŵp ddarparu sylwadau ar y Grant i CLR i'w bwydo'n ôl i PBC. **PG 36**
- Y diweddaraf am Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, yn cynnwys y Cylch Gorchwyl newydd – Yng nghyfarfod y Cadeiryddion Grwpiau Ecosystemau, trafodwyd Cylch Gorchwyl a chafodd hwn ei rannu gyda'r grŵp. Teimlid ei fod yn rhesymol fel dyhead. Fodd bynnag, er bod proses Cymru Fyw yn mynd rhagddi nid yw'n glir eto beth y dylai'r grŵp ei wneud yn y dyfodol – pan fydd hynny'n hysbys, dylid diffinio Cylch Gorchwyl mwy penodol. Teimlid yn y cyfamser y dylai'r grŵp barhau i weithio yn unol â Chylchoedd Gorchwyl y Grwpiau Ecosystemau sydd wedi'u diffinio'n glir ac sydd i'w gweld ar wefan PBC. Trafodwyd gwaith cyfredol y grŵp hefyd yn fyr – mae'r gweithredu yn mynd rhagddo, ond yn arafach na'r disgwyl oherwydd baich gwaith aelodau'r grŵp. Teimlid y byddai i bob Grŵp Ecosystem gynnal swyddog cyflogedig yn ffordd gadarnhaol ymlaen, yn arbennig yng ngoleuni cylch gorchwyl sy'n ehangu. CLR i adrodd yn ôl i PBC ar y Cylch Gorchwyl Drafft. **PG 37**

## 4. Cynlluniau gweithredu drafft i'w cyflwyno er mwyn ymgynghori

Mae camau gweithredu ar gyfer rhywogaethau wedi cael eu hychwanegu at y cynlluniau lle mae hynny'n berthnasol, er fod rhai anghysondebau rhwng y cynlluniau rhywogaethau a'r cynlluniau cynefinoedd wedi dod i'r amlwg yn ystod y broses. TD i fwydo gwybodaeth yn ôl am hynny i'r Grŵp Ecosystem Arbenigol Rhywogaethau. Y cynlluniau gweithredu i gael eu hadolygu a'u cwblhau gan CLR a HM ar gyfer ymgynghori cyn gynted â phosibl.
Mae cynllun gweithredu newydd wedi cael ei lunio ar gyfer 'Tir Âr â Mewnbynnau Isel' mewn cyferbyniad ag Ymylon Caeau Âr. Rhoddir hyn ar BARS at ddibenion ymgynghori, ond bydd hefyd yn egluro rhywfaint ar y newid yn y cynefinoedd â blaenoriaeth, a'r targedau. **PG 38 - 40**

## 5. Cytuno ar waith arolygu a monitro a dulliau cofnodi data

Un o rolau allweddol y grŵp yw canfod bylchau o ran gwybodaeth ac ymdrin â nhw. Un o'r hamcanion fu gwella'r wybodaeth yn sylfaen adnoddau pob un o'n cynefinoedd â blaenoriaeth, drwy hyrwyddo methodolegau arolygu cyffredin, gyda chronfa ddata i roi gwybodaeth arolygu ynddi. Cytunwyd ar y fethodoleg arolygu i berllannau traddodiadol, a chaiff y manylion eu rhoi yn y

lle adnoddau ar ein tudalen we gyda chyfarwyddiadau i grwpiau arolygu ar sut mae cael gwybod mwy.
Mae grŵp HAP Gwrychoedd y DU wedi cynhyrchu methodoleg arolygu, a fu'n cael ei defnyddio yn Lloegr ers tro. Mynegwyd pryder fod y dull hwn yn gymhleth i gael ei ddefnyddio gan wirfoddolwyr, ac mae fersiwn mwy cryno wedi cael ei ddarparu erbyn hyn. Cytunwyd y dylid cymeradwyo'r dull hwn, ond y dylid ceisio pecyn cymorth i ddarparu hyfforddiant a threuliau i wirfoddolwyr, fel sydd ar gael yn Lloegr. **PG 26 - 30**
Cytunwyd i gymeradwyo methodoleg asesu Ardal Âr Bwysig o ran Planhigion Plantlife. Fodd bynnag, byddai angen gwybodaeth ecolegol arbenigol i ddefnyddio'r fethodoleg hon, a bydd unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r fethodoleg yn cael eu cyfeirio at Plantlife. **PG 41**

6. **Roedd anghenion Ymchwil a Datblygu** wedi cael eu trafod yn flaenorol o dan faterion yn codi, ac ni ellid gweithredu ymhellach ar hyn o bryd.

7. **Ymdriniwyd ag anghenion cyfathrebu** i raddau helaeth wrth drafod yr adnoddau ar wefan PBC. Fodd bynnag, awgrymwyd y gellid defnyddio stondin yng nghynhadledd nesaf PBC i dynnu sylw LBAPs at unrhyw gyngor a gwybodaeth bellach y gallwn eu darparu. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol i'r Grwpiau Ecosystemau i gyd i hyrwyddo'r hyn y maent wedi bod yn ei wneud. **PG 42**

8. **Materion polisi**

   - Arweinwyr polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru – mae rhestr o arweinwyr polisi wedi cael ei llunio gan PBC, a gofynnwyd i'r grŵp enwebu'r tair swydd yr hoffent sefydlu cyswllt â nhw. Gofynnwyd i bawb anfon eu tri enwebiad at Caryn erbyn 11/3/11.**PG 43**
   - Glastir – Roedd Gethin wedi cael dadansoddiad o'r opsiynau y gwnaed cais amdanynt yng ngheisiadau Glastir. Roedd nifer dda wedi manteisio ar yr opsiynau gwrychoedd ond nodwyd fod y nifer yn isel iawn ar yr opsiynau tir âr. Caiff y dadansoddiad hwn ei gylchredeg. **PG 44**

9. **Unrhyw fater arall a 3 neges allweddol**

Adroddodd Claire yn ôl o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar rhwng y Grwpiau Ecosystemau a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid nodi fod y Rheoliadau Amaethyddiaeth, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, yn berthnasol i Berllannau, er gwaethaf yr angen i wneud cais am Drwydded Torri Coed. Dylid codi ymwybyddiaeth o hyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn mynd i wella'r ffordd y mae'n rhoi gwybod i'r Cyngor Cefn Gwlad ac eraill am gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd o dan y Rheoliadau.

**Negeseuon allweddol o'r cyfarfod hwn:**

- Yng ngoleuni'r gwaith da, wedi'i gyd-drefnu, sy'n cael ei wneud yn arolygu gwrychoedd yn Lloegr, bydd y grŵp yn archwilio'r posibilrwydd o sefydlu cronfa brosiect arolygu gwrychoedd, ar yr un patrwm.
- Mae'r ymarferiad blaenoriaethau gofodol yn parhau, ac mae meysydd gweithredu â blaenoriaeth wedi cael eu nodi ar gyfer tir âr. Mae'r camau gweithredu a argymhellir i'r meysydd hynny yn cael eu cwblhau, a bydd yr LBAPs yn cael eu hysbysu pan fyddant ar gael.
- Bydd cynlluniau gweithredu ar gyfer Gwrychoedd a Pherllannau Traddodiadol yn cael eu cyhoeddi'n fuan at ddibenion ymgynghori ar dudalennau cynghori BARS.

**10. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Mercher, 8 Mehefin, o bosibl yn swyddfeydd Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhenrhyndeudraeth

**Pwyntiau Gweithredu, y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig, 23.02.11**

| | **GWEITHREDU** | **PWY?** | **CYNNYDD** |
|---|---|---|---|
| **Pwyntiau Gweithredu 1 – 18 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2010** | | | |
| **1** | Mynd ar ôl proses Ymchwil a Datblygu i'r dyfodol a sut y byddem yn ffurfio cais. Nododd CB fod angen y rhestr o brosiectau ymchwil arni oddi wrth Steve Chambers yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. | **Caryn** | Bydd Steve Chambers yn rhoi gwybod inni pa brosiectau Ymchwil a Datblygu y mae Defra'n eu gwneud. |
| **2** | Rhoi dolenni cyswllt a phapurau perthnasol ar adran adnoddau'r Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig ar wefan PBC. CLR i lunio rhestr i'r grŵp gytuno arni. Casglu cyhoeddiadau ac anfon copïau at CB iddi hi edrych arnynt ar gyfer taflen wybodaeth Glastir. Adborth i PBC ar faterion gweithio'ch ffordd drwy'r wefan. | **CLR** | Ar y gweill |
| **3** | Siarad â Ray Woods ac Alan Hale i lunio rhestr o goed a chennau (rhywogaethau adran 42) a allai elwa o ehangu'r ddeddfwriaeth Gorchmynion Cadw Coed. | **CS** | Wedi'i wneud |
| **4** | Cylchredeg y ddogfen 'amddiffyn drwy bolisi a deddfwriaeth' er gwybodaeth. | **CLR** | Wedi'i wneud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5** | Gofyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am adroddiad cryno ar brosiect Trefrane. | **CLR** | Wedi'i wneud |
| **6** | Mynd ar ôl cyfeirio rhywogaethau ac asesu beth sy'n berthnasol i'r grŵp hwn. Mae papur wedi cael ei gynhyrchu yn neilltuo camau gweithredu i grwpiau ecosystemau. | **CLR i'w gylchredeg** | Wedi'i wneud |
| **7** | Copïo camau gweithredu perthnasol rhywogaethau i bob cynllun gweithredu cynefin. | **FG – CLR i ddarparu gwybodaeth** | Wedi'i wneud cyn belled ag sy'n bosibl |
| **8** | Ymateb i ymgynghoriad Cymru Fyw fel y trafodwyd | **CLR** | Wedi'i wneud |
| **9** | Cynnull cyfarfod is-grŵp i fwrw ymlaen â mapio blaenoriaethau gofodol | **CB** | Wedi'i wneud |
| **10** | Adolygu'r fethodoleg Arolygu Gwrychoedd a thrafod pryderon gyda RC. | **CB** | Ar y gweill |
| **11** | Dod o hyd i fersiwn byrrach o'r dull arolygu gwrychoedd a'i anfon at CB. | **CS** | Wedi'i wneud |
| **12** | Siarad â James Skates am fanyleb monitro Ymylon Caeau Âr Glastir i'r dyfodol. Hefyd pwysigrwydd sefydlu monitro ar ddechrau'r Cynllun. | **CLR** | Ar y gweill |
| **13** | Cael gafael ar yr adroddiad ar waith ymchwil ADAS i asesu cyflwr ymylon caeau âr. | **CB/TD** | Ar y gweill |
| **14** | Llunio cynllun gweithredu ymylon caeau âr – yn cynnwys dulliau arolygu ymylon caeau âr. | **CB/DL** | Wedi'i wneud |
| **15** | Cylchredeg methodoleg arolygu perllannau PTES. | **HM/CLR** | Bron wedi'i wneud |
| **16** | Ymgorffori adborth pellach yn y cynlluniau gweithredu Gwrychoedd a Pherllannau Traddodiadol, a'u hanfon at PBC er mwyn ymgynghori. | **CLR** | Wedi'i wneud erbyn diwedd y cyfarfod |
| **17** | Cylchredeg dogfen materion polisi | **CLR** | Wedi'i wneud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | EFEG gydag ymateb y Grŵp Polisi. | | |
| **18** | Canfod pwy yn LlCC sy'n gyfrifol am Orchmynion Cadw Coed – Jo Jo Smith efallai | **FG** | Wedi'i wneud |
| **Pwyntiau Gweithredu o 23 Chwe 2011** | | | |
| **19** | Llunio rhestr o brosiectau ymchwil a datblygu yr hoffem eu cael. | **CB** | |
| **20** | Mynd â'r angen am wefan i bob grŵp ecosystem gyda gwybodaeth/adnoddau hawdd cyrchu atynt at PBC.. | **CLR** | |
| **21** | Rhoi cyswllt oddi ar dudalennau gwe Glastir ar ein gwefan ni. | **CLR** | |
| **22** | Cysylltu â John Stratton am statws grŵp HAP Ymylon Caeau Âr y DU yn sgil pryderon amrywiol. | **CLR** | |
| **23** | Ysgrifennu taflen wybodaeth am ymylon braenar ar gyfer Glastir | **CB a CS** | |
| **24** | Cylchredeg taflenni gwybodaeth wedi'u diweddaru Glastir i gael sylwadau'r grŵp (gyda dyddiad cau ar gyfer dychwelyd sylwadau). | **CB** | |
| **25** | Adrodd yn ôl ar y casgliadau ar ôl trafod Gorchmynion Cadw Coed gyda Jo Smith. | **HM** | |
| **26** | Ymchwilio i ffynonellau cyllid posibl ar gyfer arolygu gwrychoedd yng Nghymru. | **AE?** | |
| **27** | Ceisio gwybodaeth am gyllido a gweinyddu arolygu gwrychoedd Lloegr. | **CLR** | |
| **28** | Ysgrifennu at awdurdodau lleol am yr arolwg gwrychoedd. | **CLR** | |
| **29** | Codi mater yr arolwg gwrychoedd gyda'r Gymdeithas Fotanegol. | **TD** | |
| **30** | Ceisio manylion y cyllid a gafodd Parc Cenedlaethol Eryri gan y Cyngor Coed ( Stella Artois) i blannu gwrychoedd. | **GD** | |
| **31** | Diweddaru map Glastir a gofyn i James Skates anfon manylion tir âr o brosiect monitro Tir Gofal at y Grŵp Ecosystem. | **CS** | |
| **32** | Anfon e-bost at CS a TD i'w hatgoffa fod angen cofnodion rhywogaethau Ad42 ar y swyddog newydd. | **CB** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **33** | Cwblhau'r disgrifiadau o'r ardaloedd prosiect tir âr a'u cylchredeg i'r grŵp. | **CS a TD** | |
| **34** | Cynnig sylwadau ar y disgrifiadau o'r ardaloedd prosiect tir âr. | **Pawb** | |
| **35** | Mynd ar ôl Colin Chapman ynglŷn â myfyriwr MSc i nodi perllannau. | **CLR** | |
| **36** | Gofyn i Tracey Lovering gasglu sylwadau ynghyd am y Gronfa Grant Bioamrywiaeth. | **CLR** | |
| **37** | Ysgrifennu cylch gorchwyl Cymru Fyw a chylchredeg yr ymateb i Diana Reynolds. | **CLR** | |
| **38** | Edrych ar y cynlluniau gweithredu a dileu camau nad ydynt yn berthnasol, ychwanegu gweithredu generig er mwyn cyflawni targedau.<br>Cyflwyno cynlluniau gwrychoedd a pherllannau er mwyn ymgynghori. | **CLR/HM/TD a CS** | |
| **39** | TD i fwydo'n ôl i'r grŵp arbenigol rhywogaethau ar gamau gweithredu ar wefan BARS nad ydynt yn berthnasol/dichonadwy. FG i amlygu'r materion a ganfyddir. | **TD/FG** | |
| **40** | Cylchredeg fersiwn diwygiedig o dempled gweithredu tir âr i EFEG, erbyn canol Mawrth. | **TD** | |
| **41** | Casglu methodolegau arolygu ynghyd ar gyfer papur i gytuno arno yn y cyfarfod nesaf, yn cynnwys dull arolygu tir âr Plantlife. | **CLR** | |
| **42** | Trafod stondin/hyrwyddiad yng nghynhadledd nesaf PBC gyda Tracey Lovering. Cylchredeg manylion ble/pryd y cynhelir y gynhadledd. | **CLR** | |
| **43** | Enwebu 3 swydd oddi ar restr personél LlCC fel cysylltiadau polisi i'r grŵp. | **Pawb** | |
| **43** | Cylchredeg dadansoddiad Glastir. | **GD** | |
| **44** | Llunio 3 neges allweddol o'r grŵp i'w cylchredeg i LBAPs. | **CLR** | |